

## ADNODDAU ADDOLI

- **Cewch oedfa trwy ddarllodiad ar wefan [www.youtube.com](http://www.youtube.com) am 10.30 bob bore Sul.** Mae'r cyswilt i'ch cyfeirio i'r dudalen briodol yn ymddangos ar dudalen flaen gwefan [www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) (Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllodiad ddod i ben.)
- **Mae DVD ar gael i'r rhai sy'n dymuno gwyllo a gwrando ar recordiad o'r gwasanaeth.** Os hoffech gael DVD, rhowch wybod i Mair.
- **Mae CD ar gael i'r rhai sy'n dymuno gwrando ar recordiad sain o'r gwasanaeth.** Os hoffech gael CD, rhowch wybod i Mair.
- **Mae taflen o'r gwasanaeth ar gael i chi ei ddarllen.** Os hoffech dderbyn copi papur o'r gwasanaeth, rhowch wybod i Mair. Cofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy o faint.
- **Gwasanaeth ffôn rhad ac am ddim.** Gallwch wrando unrhyw bryd ar oedfa gyfan sydd wedi'i recordio gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru trwy ffonio 02920 101564, ac yna pwysu '1' i gael y gwasanaeth Cymraeg. Bydd y cynnwys yn cael ei newid unwaith yr wythnos, fel arfer ar ddydd Iau.
- **Ysgol Sul ar-lein.** Bydd Ysgol Sul ar ZOOM yn ailgychwyn ar fore Sul am 10.30. Ewch i dudalen Facebook Eglwys Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.

## ADNODDAU ERAILL

- **Ar gyfer yr oedolion, mae taflenni cwestiwn ac ateb ar gael.** Cysylltwch â Mair os hoffech gael copi (ar bapur neu ar ebost) a chofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy.
  - **Ar gyfer plant, mae gwersi ysgol Sul ar gael dros ebost.** Cysylltwch â Rhodri.
- Cewch adnoddau eraill ar wefan [www.gair.cymru](http://www.gair.cymru) ac ar wefan [www.holi-cymru.org](http://www.holi-cymru.org).

## LLAIS BRO ALED

Bydd Llais Bro Aled yn parhau i gael ei gyhoeddi bob pythefnos. Cofiwch adael i ni wybod am unrhyw un sydd mewn profedigaeth, yn yr ysbyty neu ar achlysur datliad arbennig.

## BUGEILIO

Dim ond mewn amgylchiadau argyfyngus mae ymweliadau bugeiliol wyneb yn wyneb yn digwydd, ond wrth gwrs, mae gofal bugeiliol yn parhau trwy gyfrwng y ffôn. Cofiwch hefyd bod cyd-aelodau, blaenoriaid, Rhodri a Mair yn barod iawn i sgwrsio hefo chi os ydych chi'n dymuno'n ffonio ni.



# Llais Bro Aled

*Dydd Sul, 6 Medi 2020*

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

Dros yr wythnosau diwethaf, mae'n naturiol fod llawer ohonom wedi bod yn pendroni ynglŷn â'r dyfodol, a beth yw'r ffordd ymlaen i ni fel gwlad, cymunedau ac eglwysi. Diolch i bawb ohonoch wnaeth ymateb i'n cais ddiwedd mis Gorffennaf i rannu'ch dymuniad ynglŷn ag ailagor capeli. 24% oedd yn gyfforddus i ailafael mewn addoliad mewn capel (gyda chyfyngiadau'r Llywodraeth mewn lle) a 76% am barhau gyda'r ddarpariaeth fel y mae hi ar hyn o bryd. Wrth gwrs byddwn yn rhannu mwy o wybodaeth gyda chi am unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol gan sylweddoli fod pethau'n gallu newid yn sydyn iawn o safbwynt y canllawiau a'r cyngor a dderbyniwn.

Ac wrth sôn am ganllawiau a chyngor, mae'n gwneud i rywun werthfawrogi'r fath gyfrifoldeb sydd ar wleidyddion, swyddogion, ac arweinwyr gwahanol. Mae'n ddigon hawdd i ni feirniadu penderfyniadau yr ydym yn anghytuno â nhw (yn enwedig pan nad ydym yn gwybod y manylion i gyd!), ond mewn amgylchiadau dyrys, mae tasg arweinwyr yn aml yn un ddi-diolch! Mae gofyn iddyn nhw bwysu a mesur nifer o ffactorau a blaenoriaethau gwahanol cyn penderfynu ar y cam nesaf, a hyn i gyd gan wybod fod y gorau ohonyn nhw yn abl i wneud camgymeriadau. A dyna'r ymddiriedaeth y mae gwleidyddion yn pledio amdano yn ystod etholiadau – gallwch ymddiried ynom ni i wneud y penderfyniadau gorau drosoch chi!

Pwy ydym ni'n trystio felly? Ac i ba raddau ydym ni'n ymddiried yn Iesu Grist o ddydd i ddydd trwy hyn i gyd? Y gwir ydi fod ymddiried mewn eraill yn gallu bod yn brofiad digon anghyfforddus i ni, oherwydd, wrth ymddiried mewn eraill, nid ni sydd mewn rheolaeth! Meddyliwch am Iesu'n galw'r disgyblion yn Marc 1:16-20. Mae'r pysgotwyr wrth eu gwaith arferol ac mae Iesu yn dweud – “Dewch ar fy ôl i, ac fe'ch gwnaf yn bysgotwyr dynion.” Mae'n rhaid iddyn nhw wneud penderfyniad tyngedfennol yn y fan a'r lle – ydyn nhw am ymddiried yn Iesu ac ymateb yn gadarnhaol i'w alwad Ef, neu ydyn nhw am wrthod yr alwad, gan droi cefn ar Iesu a chilio i ddiogelwch tybiedig yr hyn sy'n gyfarwydd?

Mentro wnaeth Simon ac Andreas – ‘gadawsant eu rhwydau ar unwaith a'i ganlyn ef.’ (Marc 1:18) Bu iddyn nhw roi eu ffydd yn Iesu Grist er nad oedden nhw'n

gwybod beth fyddai effaith dilyn Iesu ar eu bywydau. Yn nes ymlaen yn Ioan 6, gwelwn nifer o ddisgyblion Iesu yn simsanu ac yn penderfynu peidio ei ddilyn, ac mewn ymateb i hynny, mae Iesu'n gofyn i'r Deuddeg ydyn nhw am ei adael hefyd? Atebodd Simon Pedr gyda'r geiriau: 'Arglwydd at bwy yr awn ni? Y mae geiriau bywyd tragwyddol gennynt ti, ac yr ydym ni wedi dod i gredu a gwybod mai ti yw Sanct Duw.' (Ioan 6:68-69) Trwy ymddiried yn Iesu, profodd Pedr fywyd newydd, a daeth i weld Iesu fel y Mab unigryw a anfonodd Duw i'r byd i achub pechaduriaid. O ymddiried yn Iesu, gallwn ninnau hefyd, serch ein hofnau a'n hansicrwydd, brofi'r wefr o dderbyn bywyd newydd a'r cysur o wybod fod Crist yn ein caru ac am ein cadw trwy bopeth am dragwyddoldeb. Beth sy'n well na hynny?

*Rhodri*

## Cofion a Chyfarchion

*Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.*

Anfonwn ein cofion heddiw at Betty Evans (Llansannan) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd, ac Edna Evans (Llanfair) fu yn Ysbyty Glan Clwyd am ychydig wythnosau cyn symud i Ysbyty Gymunedol Treffynnon i gael gofal pellach. Cyflwynwn y ddwy yn ein gweddïau gan hyderu y byddant yn profi gofal a chariad Duw yn eu hamgylchynu y dyddiau hyn.

Treuliodd Dilys Jones (Nantglyn) a Mair Davies (Llansannan) gyfnod yn Ysbyty Glan Clwyd yn ystod yr haf hefyd. Cofiw'n amdanynt a gweddiwn bod y ddwy yn teimlo'n well erbyn hyn. Mae eraill o'n plith wedi cael llawdriniaeth neu heb fod yn cystal eu hiechyd yn ddiweddar hefyd. Cyflwynwn hwy oll a phawb sy'n galaru am anwyliaid yn dyner iawn yn ein gweddïau.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Tudor Davies (Llanfair) oedd yn dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau hefyd i Gareth a Megan Thomas (Cefn Berain) ar achlysur dathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol.

*(Os ydw i wedi gadael enw rhywun allan, rwy'n ymddiheuro'n fawr. Os felly, plis wnewch chi adael i un ohonom wybod, rhag ofn nad yw'r wybodaeth gennym. Diolch.)*

## Cwrs Alfa

Bydd nifer ohonoch wedi clywed am fwriad Eglwys Bro Aled a Bro Dinbych i gynnal cwrs Alfa ar y cyd dros ZOOM. Cwrs 11 wythnos sy'n trafod beth yw Cristnogaeth a pham rydan ni'n credu beth yr ydan ni'n ei gredu yw Cwrs Alfa ac mae'n addas ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb, waeth beth yw eich oed, os oes gennych gefndir capel neu ddim, os ydych chi'n ystyried eich hun yn Gristion neu ddim, neu eich bod ag awydd mynd i'r capel neu ddim. Ar nosweithiau Mawrth y bydd y cwrs yn cael ei gynnal, gan gychwyn **ar Fedi'r 15fed**. Bydd pob sesiwn yn para oddeutu awr a chwarter yr un. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw cofrestru trwy lenwi ffurflen: <https://forms.gle/NmxZYBYB8U8kSmAw5> neu gysylltu â Rhodri neu Gwenno Glyn am fwy o wybodaeth. Mae croeso mawr i bob un ohonoch.

## Adnoddau Addoli

Byddwn yn parhau i gyhoeddi yr un adnoddau addoli am gyfnod eto. Mae'n braf gwybod fod cymaint ohonoch yn gwerthfawrogi'r ddarpariaeth yma ac i weld cynifer yn ymuno yn yr oedfa ar y we. Mae'n galondid hefyd bod sawl un arall wedi gofyn am DVD, CD neu gopi papur o'r gwasanaeth i'ch cynorthwyo i addoli dros y cyfnod rhyfedd hwn. Os oes unrhyw un arall fyddai'n dymuno derbyn rhai o'r adnoddau, plis cysylltwch. Gwelwch dros y dudalen i gael mwy o fanylion.

## Ydach chi'n defnyddio e-bost?

Os oes mwy ohonoch yn defnyddio e-bost a'ch bod yn fodlon inni anfon Llais Bro Aled ac unrhyw wybodaeth neu adnoddau eraill i chi ar e-bost, wnewch chi anfon neges i [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com), os gwelwch yn dda? Diolch i bawb sydd eisoes wedi cysylltu.

## Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

(Mair Owen, Bryn Goleu, Llansannan, Dinbych LL16 5LF)

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (16<sup>eg</sup>), os gwelwch yn dda.